Elin Jones AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Busnes

---

10 Mehefin 2020

Annwyl Elin

Cais am ddadl yn y Cyfarfod Llawn: Budd-daliadau yng Nghymru

Hoffem wneud cais am slot ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn cyn toriad yr haf i drafod adroddiad ein Pwyllgor ar fudd-daliadau yng Nghymru. Rydym yn ymwybodol o benderfyniad y Pwyllgor Busnes i flaenoriaethu busnes sy'n gysylltiedig â Covid-19 mewn Cyfarfodydd Llawn, ac er i'n hadroddiad gael ei gyhoeddi cyn y pandemig, credwn fod llawer o'r materion a godwyd ganddo yn berthnasol i ymateb Llywodraeth Cymru i Covid-19.

Yn wreiddiol, roeddem wedi bwriadu cael dadl ym mis Ionawr 2020, ond gwnaeth ymateb Llywodraeth Cymru ohirio ystyriaeth bellach i argymhellion 9-17. Roedd hyn oherwydd bod y Llywodraeth yn aros am ymchwil ar y gweill gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Gohiriwyd yr ymateb ymhellach yn dilyn hynny oherwydd y pandemig. Cawsom ymateb wedi'i ddiweddaru ar 20 Mai. Trafodwyd yr ymateb hwn gennym yn ein cyfarfod ar 4 Mehefin a chytunwyd i wneud cais am ddadl yn y Cyfarfod Llawn.

Fel y gellir gweld yn ôl yr ymateb gan Lywodraeth Cymru (rwyf wedi amgáu copi), gellir ystyried llawer o'r materion a godwyd gan yr adroddiad yn awr drwy gyd-destun y pandemig. Credwn y byddai dadl yn y Senedd yn caniatáu i Aelodau drafod ystod o faterion pwysig ynghylch budd-daliadau yng Nghymru a'r pandemig, gan gynnwys effeithiolrwydd y budd-daliadau a weinyddir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed yn ystod y pandemig, a

sut mae Llywodraethau Cymru a Llywodraeth y DU yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod anghenion Cymru yn cael eu hystyried mewn unrhyw newidiadau i system fudd-daliadau'r DU gyfan. Mae'r argyfwng presennol wedi atgyfnerthu nifer o'r casgliadau a'r argymhellion a wnaed gennym, yn enwedig o ran sicrhau bod y system fudd-daliadau yn ymateb i gyd-destun ac anghenion penodol dinasyddion Cymru. Credwn fod y rhain yn haeddu trafodaeth bellach gan y Senedd ehangach.

Yn gywir,

John

John Griffiths AS

Y Cadeirydd

We welcome correspondence in Welsh or English.